



Gweinyddiaeth  
CYFIAWNDER

Ministry of  
JUSTICE



Youth Justice Board  
Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid


# **Strategaeth ar gyfer yr Ystad Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr**

Cynlluniau ar gyfer 2011/12 –  
2014/15  
Dogfen Ymgynghori

Papur Ymgynghori PY13/2011

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 19 Gorffennaf 2011

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 11 Hydref 2011







**Gweinyddiaeth  
CYFIAWNDER**  
Ministry of  
**JUSTICE**



Youth Justice Board  
Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid

## **Strategaeth ar gyfer yr Ystad Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr**

Cynlluniau ar gyfer 2011/12 – 2014/15

Dogfen Ymgynghori

**Ymgynghoriad a luniwyd ar y cyd gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuentid  
Cymru a Lloegr a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ar gael hefyd ar  
wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn [www.justice.gov.uk](http://www.justice.gov.uk)**

## Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

**At:** Ddarparwyr presennol yr ystad sefydliadau diogel  
Ddarparwyr gwasanaethau ac ymarferwyr  
cyfiawnder ieuencid  
Elusennau plant a grwpiau pwysau cysylltiedig yn y  
trydydd sector  
Cyd-gomisiynwyr ym meysydd iechyd ac addysg  
Rheolwyr gwasanaethau plant awdurdodau lleol  
Seneddwyr  
Pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid a'u  
teuluoedd

**Hyd:** Rhwng 19/07/2011 a 11/10/2011

**Ymholiadau:** Karl Mittelstadt  
Rheolwr y Prosiect (Strategaeth yr Ystad  
Sefydliadau Diogel)

Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid  
1 Drummond Gate  
Llundain SW1V 2QZ

Ffôn: 020 3372 7891  
E-bost: karl.mittelstadt@yjb.gov.uk

**Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 11 Hydref 2011 at:

Debbie Woodgate  
Directorate of Secure Accommodation  
Youth Justice Board  
1 Drummond Gate  
Llundain SW1V 2QZ

Ffôn: 020 3372 7886

Neu anfon e-bost at:  
secureestatestrategy@yjb.gov.uk

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau  
am y **broses** ymgynghori, dylech gysylltu â  
chydgysylltydd ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth  
Cyfiawnder yn [consultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:consultation@justice.gsi.gov.uk).

Neu, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Ministry of Justice Consultation Co-ordinator Legal  
Policy Team, Legal Directorate 6.37, 6th Floor, 102

Petty France Llundain SW1H 9AJ

**Papur ymateb:**

Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori  
hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2011  
yn: <http://www.justice.gov.uk>



## Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad	4
Cefndir a chyd-destun	7
Egwyddorion a blaenoriaethau	11
Ailwampio'r ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc	15
Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu	22
Cwestiynau ymgynghori	36
Y broses ymgynghori	38
Llyfryddiaeth	42

## Rhagair

### Rhagair gan Frances Done, Cadeirydd, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI)

Mae Papur Gwyrdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder *Breaking the Cycle*<sup>1</sup> yn gosod pedair blaenoriaeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol: diogelu'r cyhoedd; cosbi ac adsefydlu troseddwyr; tryloywder ac atebolrwydd; a datganoli. Pwrpas y ddogfen ymgynghori hon yw nodi cynigion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer yr ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hynny, a gosod agenda clir ar gyfer datblygu'r ystad rhwng 2011/12 a 2014/15.

Mae caethiwed yn dal yn rhan bwysig o'r system cyfiawnder ieuencid i nifer bychan o blant a phobl ifanc nad yw dedfryd yn y gymuned yn addas ar eu cyfer. Ond, mae'r grŵp bach hwn yn aml yn cynnwys rhai o bobl ifanc mwyaf bregus ein cymdeithas a'r rhai sydd wedi ymddieithrio fwyaf ac felly'n cyflwyno'r heriau mwyaf.

Pwrpas dedfryd o gaethiwed yw colli rhyddid i ddiogelu'r cyhoedd a chosb am y trosedd a gyflawnwyd; ond mae hefyd yn gyfle am gyfnod o ymgysylltu gweithredol i wella gwytnwch a chyfleoedd bywyd. Rhaid i gyfnod o gaethiwed felly ddarparu cynifer â phosibl o gyfleoedd i bob person ifanc fynd i'r afael â'i ymddygiad troseddol. Dylai pobl ifanc ymgymryd â diwrnod llawn o addysg a gweithgarwch pwrpasol. Dylent gael eu paratoi ar gyfer dychwelyd i'r gymuned, a dylid rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt i fyw bywyd heb droseddu ar ôl cael eu rhyddhau.

Gan adlewyrchu'r dyletswyddau sydd arnom o dan gyfraith genedlaethol a rhyngwladol, rydym yn cydnabod bod diogelu hawliau plant yn ganolog i unrhyw gyfnod dan glo. O'r herwydd, mae'n rhaid i'r cyfnod dan glo sicrhau iechyd a lles emosiynol y plant a phobl ifanc drwy eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed.

Mae gwelliannau mawr wedi'u gwneud ers i'r cyfrifoldeb dros gomisiynu'r ystad sefydliadau diogel gael ei drosglwyddo i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn Ebrill 2000. Y mae'r arwyddion cynnydd yn galonogol gyda llai o blant a phobl ifanc yn cael eu caethiwo a lleihad yn y cyfraddau aildroseddu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dod i ddiwedd dedfrydau dan glo. Mae'r gostyngiad sylweddol, diweddar yn nifer y plant a phobl ifanc dan glo yn golygu bod yr ystad sefydliadau diogel yn awr yn wynebu cyfnod o newid. Mae hyn yn gyfle i ystyried y ffordd fwyaf priodol o leihau'r capasiti gormodol a sicrhau bod y cynlluniau datgomisiynu yn adlewyrchu'r newid ym mhroffil oedran y rhai sy'n cael eu carcharu. Mae hefyd yn gyfle i ystyried a all

---

<sup>1</sup> Llywodraeth EM (2010) *Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders*, Lundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.



cyfundrefnau gwahanol ddarparu canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc a darparu gwell gwerth am arian hefyd.

Wrth baratoi ein cynigion ar gyfer yr ystad sefydliadau diogel rydym wedi ystyried y blaenoriaethau yn y Papur Gwyrdd a'r egwyddorion sy'n ysgogi diwygiadau ar draws y Llywodraeth, yn benodol: rhagor o atebolrwydd, gwerth gwell am arian, a thalu yn ôl canlyniadau.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am eich barn ar ein cynigion i ddatblygu'r ystad sefydliadau diogel ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

### **Rhagair gan Crispin Blunt AS, Is-ysgrifennydd Seneddol, y Weinyddiaeth Cyfiawnder**

Caethiwed yw'r gosb briodol i'r bobl ifanc hynny sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol a mynych. Mae'n cosbi troseddwyr ac yn diogelu'r cyhoedd. Fel y nodir yn yr ymgynghoriad hwn, mae caethiwed hefyd yn gyfle i dywys pobl ifanc ar hyd llwybr mwy adeiladol. Mae'n hollbwysig fod pobl ifanc yn wynebu eu hymddygiad troseddol ac yn mynd i'r afael â'r ymddygiad hwnnw.

Rhaid i'r amser dan glo fod yn bwrpasol. Mae angen i'r bobl ifanc gyfrannu at addysg a hyfforddiant priodol a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas pan gânt eu rhyddhau. Ni ddylid delio â chaethiwed fel rhan ar wahân o'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n rhaid i gyfraddau aildroseddu ymysg pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau wella. Mae adsefydlu effeithiol yn gofyn am gydweithrediad agos rhwng y rhai sy'n darparu gwasanaethau caethiwo a chymorth yn y gymuned er mwyn i bobl ifanc gael gafael ar wasanaethau a fydd yn atal rhagor o droseddu.

Ond, er bod yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gyfnod yr adolygiad o wariant a'r holl gyfyngiadau cysylltiedig, mae'n gyfle i agor trafodaeth ar ddyfodol y ddarpariaeth ar gyfer cadw pobl ifanc dan glo yn y tymor canolig a'r hirdymor. Felly, bydd yr ymatebion i'r materion a godir ym mharagraffau 104 a 105 o ddiddordeb neilltuol ar gyfer llywio'r drafodaeth am bolisïau'r dyfodol yng nghyswllt yr agenda cyfiawnder ieuenctid yn ei gyfanrwydd.

Yn amodol ar gael cymeradwyaeth seneddol, bydd cyfrifoldebau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r ystad sefydliadau diogel, yn trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Edrychaf ymlaen at ddatblygu a chyflwyno strategaeth gyda phartneriaid yn y maes cyfiawnder ieuenctid a fydd yn sicrhau ystad garcharol ddiogel, saff ac effeithiol.

## Cyflwyniad

1. Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y gymuned ac yn comisiynu'r ystad sefydliadau diogel i:
  - atal troseddu
  - atal aildroseddu
  - amddiffyn y cyhoedd a chefnogi dioddefwyr a
  - hyrwyddo diogelwch a lles pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol.
2. Ym mis Ebrill 2000, cafodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) gyfrifoldebau statudol dros yr ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc<sup>2</sup>. Roedd y swyddogaethau'n cynnwys:
  - comisiynu a phrynu manau diogel i bobl ifanc o dan 18 oed
  - lleoli pobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu neu eu remandio i'w cadw dan glo gan y llysoedd ac
  - asesu'r galw yn y dyfodol a chynllunio i ddiwallu'r galw hwnnw.
3. Nid yw'r BCI yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, nac ychwaith yn anfon pobl ifanc i'r ddalfa. Ond, drwy ymgymryd â'r dyletswyddau a nodir uchod, mae'r BCI yn gallu sicrhau bod:
  - dull strategol o weithredu'n cael ei ddatblygu a'i weithredu ar gyfer darparu llefydd diogel i blant a phobl ifanc
  - safonau'r cyfundrefnau'n gwella ac yn cael eu defnyddio a'u cyflawni'n gyson
  - darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer anghenion amrywiol y bobl ifanc sydd dan glo
  - gwell gwerth am arian yn cael ei ddarparu a
  - nifer priodol o lefydd diogel ar gael ac wedi'u dosbarthu'n briodol yn ddaearyddol.

---

<sup>2</sup> Gorchymyn Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid 2000  
(<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1160/contents/made>).

4. Yn 2005, cyhoeddodd y BCI ei strategaeth tair blynedd gyntaf, *Strategy for the Secure Estate*<sup>3</sup>. Roedd yn disgrifio'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers ymgymryd â'r cyfrifoldebau comisiynu ac yn amlinellu'r egwyddorion a fyddai'n tywys y gwaith am y tair blynedd 2005/06 i 2007/08. Mae'r BCI wedi parhau i weithio yn unol â'r egwyddorion a bennwyd yn y ddogfen hon mewn blynyddoedd dilynol.
5. Mae'r adolygiad o'n strategaeth yn cael ei ysgogi gan dri dylanwad gwahanol:
  - ailwampio'r ystad sefydliadau diogel yn dilyn gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu neu eu remandio i'w cadw dan glo
  - yr angen i barhau i wella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc, a thrwy hynny leihau aildroseddu a
  - yr angen i gyflawni ymrwymadau'r adolygiad o wariant.
6. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'r BCI yn cael ei ddileu a'i swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Yn ystod y cyfnod pontio ac ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo, bydd y swyddogaethau statudol yng nghyswllt yr ystad sefydliadau diogel yn parhau i gael eu cyflwyno'n ganolog.
7. Mae'r cynigion a geir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu barn y BCI a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.

### **Yr ymgynghoriad**

8. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael barn pob parti sydd â diddordeb am ein cynigion. Er bod yr ymgynghoriad yn agored i bawb, y bwriad yw cael barn yr unigolion a'r sefydliadau hynny yr effeithir arnynt gan yn y maes cyfiawnder ieuencid yn gyffredinol a maes caethiwo ieuencid yn arbennig, neu farn y rheini sydd â diddordeb penodol yn y meysydd hyn.
9. Y BCI sy'n arwain yr ymgynghoriad ac, fel rhan o'r broses hon, mae wedi comisiynu cyrff annibynnol i gasglu barn pobl ifanc.
10. Byddwn yn darparu crynodeb o'r ymatebion – gan gynnwys barn pobl ifanc – ar ôl yr ymarfer ymgynghori. Bydd y crynodeb hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar y rheini sydd wedi ymateb, yn ogystal â darparu crynodeb o'r ymatebion a ddarparwyd. Bydd hefyd yn nodi'n glir yr hyn sydd wedi cael ei ddysgu o'r ymarfer a sut mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi dylanwadu ar ddatblygiad y strategaeth.

---

<sup>3</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2005) *Strategy for the Secure Estate for Children and Young People 2005/06 to 2007/08*. Llundain: BCI.

11. Bydd y crynodeb ar gael ar-lein ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.
12. Wrth gynnal yr ymgynghoriad hwn, mae'r BCI yn dilyn yr arferion da a geir yn y *Code of Practice on Consultation* a gyhoeddwyd gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau erbyn hyn) yn 2008<sup>4</sup>.

---

<sup>4</sup> Better Regulation Executive (2008) *Code of Practice on Consultation*. Llundain: Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio.

## Cefndir a chyd-destun

### Yr ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc

13. Mae'r ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc yn cynnwys:

- sefydliadau troseddwr ifanc (STI) ar gyfer bechgyn 15 – 17 oed
- unedau STI arbennig ar gyfer merched 17 oed
- canolfannau hyfforddi diogel ar gyfer bechgyn a merched 12 – 17 oed a
- cartrefi diogel i blant ar gyfer bechgyn a merched 10 – 17 oed.

14. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r gwelyau sy'n cael eu comisiynu ar hyn o bryd gan y BCI.

**Tabl 2: Yr ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc (Ebrill 2011)**

	<b>Nifer y gwelyau a gomisiynwyd</b>	<b>Nifer y sefydliadau</b>	<b>% y gwelyau a gomisiynwyd</b>
STI (bechgyn)	2,007	8	79.2%
STI (merched)	41	3	1.7%
Canolfannau Hyfforddi Diogel	301	4	11.9%
Cartrefi diogel i blant	183	10	7.2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,532<sup>5</sup></b>	<b>25</b>	<b>100%</b>


### Cynnydd a heriau

15. Y mae arwyddion calonogol fod y system cyfiawnder ieuencid yn perfformio'n dda. Mae nifer y bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system a nifer y bobl ifanc sydd dan glo wedi lleihau. Yn 2009/10 rhoddwyd 155,856 o ddedfrydau i blant a phobl ifanc, 5,130 ohonynt yn ddedfrydau o gadw dan glo. Mae'r ddau ffigur i lawr 28% o 216,011 dedfryd a 7,097 dedfryd dan glo yn 2006/07.

<sup>5</sup> Mae'r ffigurau'n adlewyrchu'r gweithgareddau datgomiynu mwyaf diweddar yn STI New Hall a Stoke Heath.

16. Ar gyfartaledd, roedd 2,067 o bobl ifanc dan 18 oed dan glo ar unrhyw un adeg yn 2010/11, 29% yn llai na'r 2,914 yn 2006/07<sup>6</sup>.

### Siart 1: cyfartaledd nifer y plant a phobl ifanc dan glo 2006/07 – 2010/11




\* Ffynhonnell: SACHS, data dros dro yw data 2010/11

17. Fel y dengys y tabl isod, y mae amrywiadau yn y galw yn ôl oed gyda gostyngiadau sylweddol yn y galw yn y carfannau oed iau. Cafwyd y gostyngiadau mwyaf ar gyfer pobl ifanc rhwng 10 a 14 oed (51% o ostyngiad) a phobl ifanc 15 oed (41% o ostyngiad).

---

<sup>6</sup> Ffynhonnell: Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2009/10, Cymru a Lloegr. Y BCI a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, data dros dro ar gyfer 2010/11.

## Siart 2: Nifer y bobl ifanc dan glo yn 2006/07 o'i gymharu â 2010/11



\*Ffynhonnell: SACHS, data dros dro yw data 2010/11

18. Yn ogystal â'r gostyngiad sydyn yn y galw, mae'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc dan glo wedi gwella'n fawr ers 2000, pan ddaeth y BCI yn gyfrifol am gomisiynu. Gan adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed yn strategaeth flaenorol y BCI<sup>7</sup>, mae hyn yn cynnwys newidiadau a wnaethpwyd i:

- **ffurfweddiad yr ystad**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu ystad sefydliadau diogel ar wahân ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed. Heddiw, dim ond 10% o lefydd diogel sy'n cael eu comisiynu mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc sydd hefyd yn gofalu am oedolion ifanc. Mae hyn yn cymharu â 71% yn Ebrill 2000 pan ysgwyddodd y BCI y cyfrifoldebau comisiynu.

- **gwasanaethau a gomisiynir**

Mae'r rhain wedi canolbwyntio'n fwy ar blant a phobl ifanc. Yn benodol mae hyn yn cynnwys cyflwyno:

- trefniadau diogelu gwell drwy fuddsoddi mewn amgylcheddau ffisegol mwy diogel a chyflwyno rheolwyr diogelu, gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau eiriolaeth annibynnol mewn STI

<sup>7</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2005) *Strategy for the Secure Estate for Children and Young People – Plans for 2005/06 to 2007/08*. Llundain: BCI.

- darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cyflawni troseddau rhywiol
  - darpariaeth well ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael dedfrydau hirdymor
  - darpariaeth well ar gyfer pobl ifanc sydd â ffactorau risg arbennig o gymhleth a
  - darpariaeth well ar gyfer adsefydlu.
19. Oherwydd hyn, mae'r gwasanaeth pobl ifanc dan glo yn sicr yn fwy diogel nag y bu<sup>8</sup>, ac mae'r gyfradd aildroseddu ar gyfer pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau yn parhau i ddisgyn<sup>9</sup>. Ac eto, er gwaetha'r cynnydd hwn, mae'n annerbyniol bod y gyfradd aildroseddu ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau yn dal yn uchel ar 71.9%<sup>10</sup>.

---

<sup>8</sup> Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi/BCI (2011) *Children and Young People in Custody 2009-2010 – An analysis of the experiences of 15-18-year-olds in prison* Llundain: ACEM

<sup>9</sup> Gwelwyd 29% o ostyngiad yn y gyfradd aildroseddu ar gyfer troseddwr sy'n cael eu rhyddhau; canlyniadau aildroseddu ymysg pobl ifanc o gohort 2008, y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

<sup>10</sup> Ffynhonnell: Ystadegau Cyfiawnder Ieuencid 2009/10, Cymru a Lloegr. Y BCI a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder.



## Egwyddorion a blaenoriaethau

20. Mae Papur Gwyrdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder *Breaking the Cycle*<sup>11</sup> yn gosod pedair blaenoriaeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol:

- amddiffyn y cyhoedd
- cosbi ac adsefydlu troseddwyr
- tryloywder ac atebolrwydd a
- datganoli

21. Yn ogystal, mae'r papur yn datgan mai nod y system cyfiawnder ieuencid yw

*(...) atal plant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed rhag troseddu, gan ddiogelu eu lles yr un pryd.*

22. Dylai'r canlyniadau ym mharagraff 20 fod yn flaenoriaeth hefyd ar gyfer maes caethiwo ieuencid. Mae caethiwed yn dal yn rhan bwysig o'r system cyfiawnder ieuencid i nifer bychan o blant a phobl ifanc nad yw dedfryd yn y gymuned yn addas ar eu cyfer.

23. Gall caethiwed roi cyfle i bobl ifanc roi sylw i'w hymddygiad troseddol a sicrhau na fyddant yn troseddu eto. Gall ddarparu strwythur a disgyblaeth a chyfle i gyfrannu at weithgarwch pwrpasol, gan gynnwys ailafael mewn addysg a hyfforddiant. Gall hefyd ddarparu mynediad i driniaeth a chefnogaeth, gan gynnwys gwasanaethau gwell i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion mwy cymhleth. Er y gall fod yn heriol mynd i'r afael â'r holl broblemau a wynebhir gan y bobl ifanc sydd dan glo, dylai fod yn gam pwysig mewn proses adsefydlu sy'n rhychwantu'r cyfnod dan glo a'r cyfnod yn y gymuned.

## Egwyddorion

24. Dylai datblygiad yr ystad sefydliadau diogel fod yn seiliedig ar set o egwyddorion clir. Yr egwyddorion hyn yw:

### ***Ystad sefydliadau diogel, arbenigol ac ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc***

- Dylid cydnabod bod yr ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc yn ddarpariaeth arbenigol a dylai'r gwasanaethau a

---

<sup>11</sup> Llywodraeth EM (2010) *Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders*, Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

gomisiynir gydnabod y dull gwahanol o weithredu y mae'n rhaid ei gael. Gellir cyflawni hyn orau mewn ystad sefydliadau diogel ar wahân.

- Dylai plant a phobl ifanc gael eu goruchwyllo a chael gofal gan staff sydd yn ymrwymedig i weithio gyda nhw a phobl sydd wedi cael hyfforddiant priodol.
- Dylai'r amgylchedd adeiledig fod yn addas ar gyfer gweithio'n effeithiol gyda phlant a phobl ifanc a dylai'r unedau byw fod yn gymharol fach (hyd yn oed os ydynt mewn sefydliadau mwy).

### ***Cydnabod amrywiaeth***

- Ni ddylai plant a phobl ifanc yn yr ystad sefydliadau diogel fod o dan anfantais ar sail rhywedd, gallu, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd na chrefydd.
- Dylai staff ymgysylltu'n rhagweithiol â'r holl bobl ifanc i ganfod a diwallu anghenion penodol yr holl bobl ifanc sy'n cael eu rhoi dan glo.

### ***Lleoliadau priodol***

- Dylai plant a phobl ifanc gael eu lleoli mewn sefydliad sy'n gallu diwallu'u hanghenion orau ac sy'n rhoi'r cyfle gorau iddynt fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.

### ***Sicrhau diogelwch a lles plant a phobl ifanc***

- Yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, dylai sefydliadau diogel leihau i'r eithaf y tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn dioddef niwed drwy fesurau diogelu cadarn a fydd yn:
  - rhoi sylw i'r angen i ddiogelu a hybu lles plant a phobl ifanc
  - eu diogelu rhag hunan-niweidio
  - eu diogelu rhag cael eu niweidio gan oedolion
  - eu diogelu rhag cael eu niweidio gan gyfoedion a
  - gofyn yn ddiwyd am farn a safbwyntiau plant a phobl ifanc, a'u hymgorffori mewn ymarfer.

### ***Asesu angen yn effeithiol***

- Dylid cynnal asesiad cynhwysfawr o angen yn gynnar yn y broses. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r sefydliadau i dargedu adnoddau at ymddygiad troseddol ac unrhyw anghenion ehangach a fydd yn cael eu pennu, a fydd yn ei dro yn arwain at gael y bobl ifanc i ymgysylltu'n llwyddiannus tra'u bod dan glo. Dylai'r asesiad hefyd arwain at ddatblygu trefniadau adsefydlu cadarn.

### ***Diwrnod llawn a phwrpasol***

- Dylai diwrnodau plant a phobl ifanc dan glo fod yn llawn a phwrpasol a fydd yn eu galluogi i ymgymryd ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy pan gânt eu rhyddhau.
  - Dylai plant a phobl ifanc dderbyn gwasanaethau priodol sy'n ymwneud ag iechyd corfforol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
  - Dylai plant a phobl ifanc fynychu rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol.
25. Credwn fod yr egwyddorion hyn yn llwyfan hanfodol ar gyfer diogelu hawliau pobl ifanc a sicrhau diogelwch a lles y bobl ifanc a'r staff yn y sefydliadau diogel. Sefydlodd dyfarniad arbennig Munby fod gan blant dan glo yr un hawliau dan Ddeddfau Plant 1989 a 2004 a deddfwriaeth Hawliau Dynol (yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol (1998) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) â'r plant hynny mewn unrhyw sefyllfa arall.

### **Blaenoriaethau ar gyfer 2011/12 i 2014/15**

26. Mae adrannau canlynol y ddogfen ymgynghori hon yn nodi sut y bwriadwn ddefnyddio'r egwyddorion a ddisgrifir uchod yn ein gwaith yn y dyfodol. Yn benodol, byddwn yn gweithio tuag at:
- ailwampio'r ystad sefydliadau diogel er mwyn rhoi darpariaeth well mewn ystad llai a symud ymhellach tuag at ddarpariaeth ar wahân ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed a
  - gwella'r broses adsefydlu ar gyfer pobl ifanc dan glo a lleihau'r perygl o aildroseddu drwy gomisiynu gwasanaethau sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael mynediad at systemau effeithiol.
27. Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn bydd yn rhaid cael partneriaethau cydweithio cryf ag asiantaethau lleol a chenedlaethol i sicrhau bod yr holl bartneriaid cyflenwi'n cyfrannu at gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac at leihau aildroseddu. Hefyd, bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd cyfredol ac at ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd.
28. Mae hyrwyddo cydraddoldeb, gweithio mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu a gwerthfawrogi amrywiaeth yn greiddiol i adeiladu cymunedau cryf a mynd i'r afael â'r anghyfartaledd sydd i'w weld yn y system cyfiawnder ieuenctid. Byddwn felly'n parhau i ddefnyddio data ar anghyfartaledd ac yn adolygu gwybodaeth ansoddol er mwyn hyrwyddo ymarfer effeithiol ar lefel leol.

29. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried sut i fwrw ymlaen â'n cynlluniau yn y weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru. Rydym yn croesawu rhagor o farn am sut y gallwn weithio gyda gwasanaethau a darparwyr yng Nghymru i helpu i leihau aildroseddu a gwella diogelwch y cyhoedd yng Nghymru.

### Blwch 1: Y Darlun Cymreig

Mae llawer o'r gwasanaethau sy'n hanfodol er mwyn llwyddo i adsefydlu plant a phobl ifanc sy'n cael eu caethiwo wedi'u datganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn golygu bod polisiau, arferion a threfniadau comisiynu gwahanol ar gael yn aml ar gyfer addysg, iechyd a lles cymdeithasol yng Nghymru. Hefyd, gan fod rhai plant a phobl ifanc o Gymru yn cael eu cadw mewn sefydliadau diogel yn Lloegr, mae'n rhaid rhoi sylw i'r cymhlethdodau ychwanegol y gall y gwahaniaethau hyn eu hachosi.

Oherwydd hyn, roedd y BCI a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi amlinellu eu cynlluniau ar gyfer pobl ifanc o Gymru sy'n cael eu rhoi dan glo fel rhan o *Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan*<sup>12</sup> yn 2004. Cafwyd ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc o Gymru sy'n cael eu hanfon i gyfleusterau dan glo yn Lloegr yn cael yr un hawliau â phlant a phobl ifanc o Loegr ac â phlant a phobl ifanc eraill yng Nghymru. Y prif nod yw y dylai plant a phobl ifanc o Gymru sy'n bwrw dedfryd dan glo wneud hynny mewn amgylchedd lle byddant yn dal cysylltiad â'u teuluoedd, eu diwylliant a'u cymunedau.

Er bod dyhead o hyd i gynnal a chynyddu faint o lefydd diogel sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru, rhaid gosod hyn yn erbyn y gostyngiad, sydd i'w groesawu, yn niferoedd y bobl ifanc o Gymru sy'n cael eu cadw dan glo ar hyn o bryd a'r crebachiad yn yr ystad sefydliadau diogel. Gan weithio gyda'i gilydd, mae'r BCI a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu manyleb gwasanaeth pwrpasol ar gyfer pobl ifanc Cymru sy'n cael eu cadw'n gaeth yn yr ystad sefydliadau diogel. Ein bwriad yw sicrhau bod anghenion addysgol, galwedigaethol, iechyd a diwylliannol gwahanol pobl ifanc Cymru yn cael sylw yn eu dewis iaith ni waeth ym mha wlad y maent yn cael eu dal. Mae manyleb bwrpasol yn cael ei datblygu yn STI Hindley a bydd hyn, ynghyd â phrotocol lleoli pwrpasol ar gyfer pobl ifanc, yn galluogi pobl ifanc o ogledd Cymru i dderbyn gwasanaethau priodol.

Mae'r BCI yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i brofi a mireinio'r dull hwn o weithredu cyn pennu sut y gellid ei ymestyn i sefydliadau eraill lle ceir nifer helaeth o Gymry ifanc.

---

<sup>12</sup> Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan*. Llundain/Caerdydd.

## **Ailwampio'r ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc**

### **Comisiynu effeithiol i leihau aildroseddu**

30. Mae trefniadau comisiynu effeithiol yn yr ystad sefydliadau diogel yn seiliedig ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o holl anghenion plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae'r newidiadau diweddar i nifer a phroffil y bobl ifanc yn y sefydliadau diogel yn gyfle i fireinio ein dealltwriaeth gyfredol. Bydd hyn yn gofyn am adolygiad beirniadol o'r holl dystiolaeth sydd ar gael a mwy o waith effeithiol gyda'n cyd-gomisiynwyr i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n adlewyrchu'r anghenion sydd wedi'u pennu.
31. Dylai comisiynu llety diogel a lleoli pobl ifanc barhau i fod yn swyddogaeth genedlaethol. Bydd hyn yn fodd i reoli'r pwysau poblogaeth yn effeithiol ar draws yr ystad a sicrhau bod cyflenwad digonol o welyau diogel ar gael i fodloni'r galw. Mae'r dull hwn hefyd yn fwy cost-effeithiol ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwelliannau sydd wedi'u gweld ar draws yr ystad sefydliadau diogel yn y blynyddoedd diweddar.
32. Pan ysgwyddodd y BCI y cyfrifoldebau comisiynu a lleoli yn 2000, etifeddodd ystad sefydliadau diogel cymhleth a braidd yn dameidiog a oedd yn cynnwys tri sector ar wahân. Mae gan bob sector ei hanes unigryw ei hun a fframwaith rheoleiddio ar wahân.
33. Mae'r gwahaniaethau cost fesul lle ar gyfer y mathau o ddarpariaeth ddiogel yn ystyriaeth bwysig. Gellir esbonio'r gwahaniaethau hyn gan y cymarebau staff-i-bobl-ifanc gwahanol yn y gwahanol fathau o sefydliad, a gofynion y rheolau a safonau gweithredu ymhob sector.
34. Er bod comisiynu o dri sector hollol wahanol yn heriol o ran darparu gwasanaeth cyson a chydgyssylltiedig, mae'r BCI o'r farn na fyddai diwygio'r system yn ei chyfanrwydd – a fyddai'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol sylweddol – yn ymarferol nac yn gost-effeithiol. Yn erbyn cefndir ymrwymiadau'r adolygiad o wariant, dylai'r ffocws felly barhau ar sicrhau gwerth gwell am arian o'r ddarpariaeth gyfredol.
35. Er mwyn parhau i wella, rydym yn cynnig defnyddio ein pwerau comisiynu i:
  - ddarparu arweiniad fel comisiynydd ar y gwasanaethau a, hyd y bo modd, y canlyniadau ar gyfer pobl ifanc y bydd disgwyl i ddarparwyr eu cyflenwi. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar ddadansoddiad rheolaidd o anghenion

- rhoi mwy o ryddid i ddarparwyr a, thrwy hynny, wella'u gallu i arloesi a darparu gwasanaethau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar bobl ifanc
  - defnyddio cystadleuaeth a phrofi'r farchnad i annog amrywiaeth well o ddarparwyr effeithiol a gwella effeithlonrwydd ar draws yr ystad sefydliadau diogel
  - gweithio gyda'n partneriaid comisiynu i greu fframwaith cenedlaethol mwy cydgysylltiedig ar gyfer cydweithio, ar lefel comisiynydd a darparwr. Byddai hyn yn cynnwys yr angen i gytuno ar flaenoriaethau ar y cyd a'r canlyniadau a fyddai'n ddymunol, yn ogystal â chynllunio'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso gwasanaethau
  - gweithio gyda'n partneriaid lleol a chenedlaethol i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u cysoni a'u hintegreiddio'n briodol yn ystod cyfnod y bobl ifanc dan glo ac wedyn
  - ymchwilio i sut y gall awdurdodau lleol fod yn fwy atebol am ganlyniadau adsefydlu ac ailsefydlu, ynghyd â chysylltiad agosach â'r broses ar gyfer comisiynu gwasanaethau yn y sefydliadau diogel a
  - ymchwilio i sut y gallai dull talu-drwy-ganlyniadau wella atebolrwydd lleol a gwella canlyniadau adsefydlu i blant a phobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau.
36. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) wedi cyhoeddi strategaeth cystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau i oedolion sy'n troseddu<sup>13</sup>. Mae'r strategaeth hon yn nodi rhai egwyddorion cyffredinol ar gyfer defnyddio cystadleuaeth ar draws yr holl wasanaethau cyfiawnder. Yr egwyddorion hyn fydd sail y ffordd y byddwn yn defnyddio cystadleuaeth i gyflawni ein hamcanion ar gyfer yr ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc.
37. Hefyd, mae angen i ni ddeall yn well a yw'r gwahaniaethau rhwng tri sector yr ystad sefydliadau diogel – yn cynnwys costau – yn cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau adsefydlu ac aildroseddu a gyflawnir. Rydym yn cynnal ymchwil i ymchwilio i'r mater hwn.
38. Rydym yn cydnabod bod bodloni anghenion yr holl bobl ifanc yn yr ystad sefydliadau diogel yn her i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae gan leiafrif bach o bobl ifanc sydd dan glo ystod cymhleth iawn o anghenion iechyd meddwl a chorfforol. Gall ceisio bodloni anghenion y bobl ifanc hyn yn effeithiol fod yn her i'r sefydliadau diogel a cheisio sicrhau sefydlogrwydd ar draws yr ystad yr un pryd.

---

<sup>13</sup> Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2011) *The competition strategy for offender services* Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder

39. Felly rydym yn cynnig adeiladu ar yr arferion da newydd lle mae cymorth dwys yn cael ei ddarparu mewn unedau gwell megis Uned Keppel yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Wetherby ac Uned Willow yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Hindley. Bydd hyn yn sicrhau y gellir bodloni anghenion y bobl ifanc mwyaf heriol sydd dan glo yn effeithiol.

## Blwch 2: Uned Willow, STI Hindley

Ym mis Ebrill 2008, agorwyd Uned Willow yn STI Hindley ar gyfer pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl sylweddol, gan gynnwys anawsterau ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol difrifol. Nid yw'r bobl ifanc hyn yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â'r drefn breswyl ac, yn y gorffennol, byddent yn aml wedi'u lleoli mewn unedau gofal iechyd neu unedau lle roeddynt yn cael eu cadw ar wahân. Byddai rhai wedi cael eu trosglwyddo i sefydliad arall.

Datblygwyd yr uned mewn partneriaeth agos ag Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl Manceinion. Nid yn unig mae'n cymryd pobl ifanc sy'n fodlon cyfrannu at waith i fynd i'r afael â'u hymddygiad a dysgu peirianweithiau ymdopi, ond hefyd mae'n cymryd y rheini sy'n llawer llai bodlon cyfrannu at weithgareddau adeiladol ac y mae angen ymyriadau un-wrth-un mwy penodol arnynt.

Hyfforddir staff i ddeall a gweithio gydag anhwylderau ymlyniad a datblygiad pobl ifanc ac maent yn gweithio ochr yn ochr â thîm o staff arbenigol sy'n cynnwys seicolegydd clinigol, therapydd iaith a lleferydd, a nyrs anabledau dysgu.

Mae'r swyddogion yn gweithio shifftiau deuddeg awr sy'n helpu i ddarparu parhad gofal ac i feithrin perthynas gref rhwng y staff a'r bobl ifanc. Mae gan bob person ifanc gynllun rheoli unigol a chaiff cynnydd ei fonitro bob wythnos mewn cyfarfodydd staff aml-ddisgyblaethol wythnosol. Mae'r cynllun yn ymdrin â phob agwedd ar eu lles a'u hymddygiad a'r nod yw eu hailintegreiddio i'r prif unedau preswyl.

40. Mewn nifer bach o achosion unigol, credwn nad yr ystad sefydliadau diogel presennol yw'r lle gorau bob amser i reoli rhai pobl ifanc. Yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn ystyried a yw ein pwerau o dan Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, fel y'i diwygiwyd gan adran 34 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007, yn ein galluogi i gomisiynu nifer bach o lefydd ar sail prynu yn ôl y galw mewn llety amgen er mwyn gwella ein gallu i reoli risg a sicrhau canlyniadau gwell i'r bobl ifanc hyn.

41. Hefyd, mae'r BCI eisoes wrthi'n gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i ddatblygu gwasanaethau newydd i helpu pobl ifanc yn y broses adsefydlu. Yn y tymor hwy, a thros gyfnod all ymestyn y tu hwnt i'r strategaeth hon, byddwn yn ystyried datblygu nifer bach o is-safleoedd llai a fydd yn helpu'r bobl ifanc i adsefydlu yn y gymuned, rhai ohonynt o bosibl yn llety byw agored neu led-annibynnol. Bydd hyn yn digwydd fel rhan o'n pwerau comisiynu presennol.
42. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio dull talu-drwy-ganlyniadau gyda darparwyr gwasanaethau cadwraeth, trwy gyflwyno mesurau sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau yn ein contractau.

### **Ymatebi i leihad yn y galw**

43. Mewn ymateb i'r gostyngiad cyson yn y galw am lefydd dan glo, mae'r BCI eisoes wedi datgomisiynu nifer o welyau ar draws yr holl sectorau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r rhagolygon ar hyn o bryd yn awgrymu y bydd nifer y plant a phobl ifanc sydd dan glo yn dal i ostwng yn ystod y blynyddoedd nesaf, ond ar gyfradd llawer arafach. Y canlyniad fydd ystad lai o faint, a llai o welyau ymhob sector.
44. Mae'r datgomisiynu hyd yma wedi digwydd gan mwyaf yn y STI cyhoeddus ac nid yw'r gostyngiad yn y galw yn y grŵp oedran iau wedi'i adlewyrchu'n llawn eto yn y rhaglen ddatgomisiynu. Gan adlewyrchu'r gostyngiad yn y galw am lefydd ar gyfer pobl ifanc 10 – 14 oed, mae'r gostyngiadau yn y llefydd a gomisiynir yn awr yn debygol o fod yn gyfatebol uwch yn y sector cartrefi diogel i blant a'r sector canolfannau hyfforddi diogel.
45. Mae'r BCI o'r farn bod cartrefi diogel i blant a chanolfannau hyfforddi diogel at ei gilydd yn gyfnewidadwy gan gydnabod hefyd mai dim ond amgylchedd cartref diogel i blant fydd yn briodol i rai pobl ifanc.



**Tabl 3: Gwelyau a ddatgomiwyd fel % o'r sector hwnnw er Ebrill 2009<sup>14</sup>**

<b>Sector</b>	<b>Nifer y gwelyau a ddatgomiwyd</b>	<b>% a ddatgomiwyd o'r ystad sefydliadau diogel i gyd<sup>15</sup></b>	<b>% a ddatgomiwyd o'r sector hwnnw<sup>16</sup></b>
STI (bechgyn a merched)	959	27%	32%
Canolfannau Hyfforddi Diogel	6	2%	0.2%
Cartrefi diogel i blant	36	1%	13%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1001</b>	<b>28%</b>	

46. Mae'r BCI yn gwybod bod rhagor o ostyngiadau yn y galw'n dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys mentrau polisi a pherfformiad timau troseddwr ifanc (TTI). Bydd y BCI yn parhau i fonitro'n ofalus nifer y bobl ifanc sydd dan glo er mwyn diweddu'r gynlluniau a chyfateb y cyflenwad â'r galw.

47. Rydym yn cydnabod bod risgiau'n gysylltiedig â datgomiynu wrth i'r ystad gyfuno'n llai o safleoedd a'r rheini'n fwy gwasgaredig. Y risgiau penodol yw:

- gallai'r galw am lefydd dan glo fod yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael petai cynnydd sydyn yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu remandio neu eu dedfrydu i'w cadw dan glo
- unwaith y byddant wedi'u datgomiynu, gall fod yn anodd iawn ailgomiynu llefydd
- mae lleihad yn nifer y safleoedd yn gwneud y gwaith o gyfateb y cyflenwad a'r galw ar sail ddaearyddol yn fwy anodd

<sup>14</sup> Dechreuodd y BCI ar ei raglen ddatgomiynu yn Ebrill 2009.

<sup>15</sup> Fel canran o'r gwelyau a gomisiwyd yn Ebrill 2009.

<sup>16</sup> Fel canran o'r gwelyau a gomisiwyd yn Ebrill 2009.

- mae gweithgarwch adsefydlu'n dod yn fwy heriol mewn ystad sydd wedi'i gwasgaru'n ddaearyddol a
- mae'r gwaith o reoli'r boblogaeth yn dod yn fwy heriol ac efallai y bydd y risgiau diogelu'n cynyddu wrth i'r ystad weithredu'n nes at ei chapasiti.

48. Byddwn yn parhau i reoli'r risgiau hyn wrth ddatblygu'r cynigion a geir yn y ddogfen hon.

### **Ystad ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc**

49. Fel y nodir yn yr egwyddorion yr ydym yn eu cynnig, mae comisiynu a darparu gwasanaethau ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc sydd dan glo yn parhau'n flaenoriaeth. Mae'r rhesymau am hyn fel a ganlyn:

- rhaid i'r gwasanaethau cadwraeth fodloni hawliau pobl ifanc dan y gyfraith<sup>17</sup>
- rhaid i'r dulliau ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles gydymffurfio â deddfwriaeth amddiffyn plant<sup>18</sup>
- mae pobl ifanc sydd dan glo yn dal i ddatblygu ac mae eu hymddygiad (troseddol) yn wahanol i ymddygiad oedolion
- mae'r prosesau cynllunio dedfryd ac ymyriadau'n fwyaf effeithiol pan fyddant yn adlewyrchu anghenion datblygu pobl ifanc
- mae anghenion addysg a gofal iechyd pobl ifanc yn wahanol i anghenion oedolion.
  - Dylai pobl ifanc dan oed gadael ysgol yn arbennig dderbyn amserlen lawn o addysg, hyfforddiant a gweithgarwch pwrpasol.
  - Mae'n bosibl bod problemau iechyd meddwl sy'n dechrau ymddangos yn cael eu cuddio gan ymddygiad heriol.
- mae angen gweithio gyda theuluoedd a rhieni, lle bo hynny'n briodol, i sicrhau newidiadau cadarnhaol hirdymor mewn ymddygiad.

---

<sup>17</sup> Yn 2002, dyfarnodd yr Ustus Munby fod gan blant sydd dan glo yr un hawliau dan Ddeddf Plant 1989 a deddfwriaeth hawliau dynol â'r plant hynny mewn unrhyw sefyllfa arall.

<sup>18</sup> Mae Deddf Plant 2004 yn gosod y cyfrifoldeb penodol dros ddiogelu a hyrwyddo lles ar ddarparwyr llefydd dan glo i blant a phobl ifanc.

50. Mae diffyg ystad ddiogel ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc yn fwyaf amlwg yn y sector STI. Yn yr amgylchiadau hyn gallai tensiynau godi rhwng gofynion y BCI fel comisiynydd a'r pwysau gweithredol ar ei brif ddarparwr, NOMS, i reoli'n effeithiol boblogaeth dan glo o oedolion yn bennaf. Gall y rolau comisiynydd/darparwr presennol arwain at ddiffyg trefn lywodraethu glir, atebolrwydd ac ysgogiad ar gyfer newid mewn ymarfer yn yr ystad STI.
51. Ceir sawl enghraifft dda iawn lle mae'r BCI a NOMS wedi cyflwyno darpariaeth well a mwy o ffocws ar bobl ifanc. Ond, ar gyfer y dyfodol, byddem yn cwestiynu oni fyddai datblygu gwasanaethau a phrosesau rheoli priodol yn cael mwy o hwb drwy sefydlu trefniadau llywodraethu mwy ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc.
52. Rydym yn bwriadu gweithio gyda NOMS i symud tuag at ddarpariaeth dan glo fwy penodol i blant a phobl ifanc drwy:
- roi strategaeth datblygu'r gweithlu ar waith sy'n denu, yn recriwtio ac yn hyfforddi staff sy'n awyddus i weithio gyda rhai o bobl ifanc mwyaf heriol ein cymdeithas
  - creu ystad sy'n gweithredu ar wahân i'r system oedolion. Yn benodol, mae hyn yn golygu creu polisïau a llawlyfr gweithredu pwrpasol ar gyfer yr ystad STI i bobl ifanc a symud tuag at strwythur gweithredu mwy unigryw a
  - datblygu cefnogaeth a phrosesau mwy effeithiol ar gyfer rheoli'r symud i'r ystad sefydliadau diogel ar gyfer oedolion ifanc.
53. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr, Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal i greu trefn arolygu mwy cydlynus a dull mwy cydgysylltiedig o weithredu ar gyfer yr holl fathau o lety yn yr ystad sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc.

## **Gwella adsefydlu a lleihau aildroseddu**

54. Nid yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (BCI) yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl ifanc mewn sefydliadau diogel. Ond, fel comisiynwyr, mae'n bwysig ein bod yn gwbl sicr pa wasanaethau y dylid eu darparu a'r canlyniadau yr ydym yn eu disgwyl gan ein darparwyr.
55. Rydym am weld ystad sy'n cynnig gwerth gwell drwy fod yn fwy ymatebol i anghenion pobl ifanc. Rydym yn cynnig rhoi mwy o ryddid i ddarparwyr i ddefnyddio adnoddau fel y mynnant hwy, tra byddwn yn eu gwneud yn fwy uniongyrchol atebol am fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Mae'n hanfodol fod sefydliadau diogel yn paratoi pobl ifanc ar gyfer cael eu hadsefydlu'n llwyddiannus drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau plant, darparwyr addysg a gwasanaethau iechyd prif ffrwd.
56. Drwy wneud hyn, ategir gwaith traws-lywodraethol ehangach i:
- fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd
  - gweithio gyda theuluoedd anodd eu cyrraedd a
  - gwella'r canlyniadau i blant sydd yn neu sydd wedi derbyn gofal gan awdurdodau lleol.
57. Ond, rhaid i bobl ifanc eu hunain fynd i'r afael â'r problemau a arweiniodd at eu hymddygiad troseddol. Rhaid eu herio i wynebu natur a chanlyniadau eu hymddygiad a hynny yng nghyswllt y dioddefwyr, cymdeithas a hwy eu hunain.
58. Felly, yn ein rôl gomisiynu, rhaid i ni ddarparu cyngor clir ar yr ymyriadau cost-efeithiol y mae tystiolaeth ac ymarfer newydd yn dweud wrthym sy'n fwy tebygol o helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Dymunwn weld adnoddau digonol yn cael eu darparu i ddarparwyr er mwyn cefnogi pobl ifanc i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol a newid eu bywydau. Yr un pryd, rhaid gwneud darparwyr yn yr ystad sefydliadau diogel yn fwy atebol am y canlyniadau a gyflawnir.
59. Mae hyn yn golygu y dylai darparwyr:
- gynorthwyo'r bobl ifanc i ailafael mewn addysg a hyfforddiant cynaliadwy a all ddarparu sgiliau a chymwysterau perthnasol
  - darparu diwrnod pwrpasol a llawn gweithgarwch
  - darparu rhaglenni sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol a gwella gwytnwch pobl ifanc a leolir yn yr ystad sefydliadau diogel.

Bydd hyn yn cynnwys gweithio'n adferol a chyda'r teuluoedd os yw'n briodol.

- sicrhau y gellir cael gafael ar ddarpariaeth iechyd briodol - gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.
60. Er mwyn cyflawni'r heriau hyn, mae'r BCI yn parhau i ddibynnu ar gefnogaeth a mewnbwn gan adrannau eraill y llywodraeth, a hefyd ar ddarparu'r gwasanaethau'n effeithiol yn lleol. Ond, tra mae comisiynu gwasanaethau yn yr ystad sefydliadau diogel wrth wraidd swyddogaethau'r BCI, yn aml dim ond ar gyrion gwaith ei gyd-bartneriaid comisiynu y mae. Felly mae'n rhaid parhau i gyfrannu at gomisiynu gwasanaethau'n effeithiol gan asiantaethau partner megis yr Adran Iechyd a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), yr Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc (YPLA) ac awdurdodau iechyd a sefydliadau eraill a all fod yn gysylltiedig â chomisiynu yn y maes addysg pan fydd yr YPLA yn dod i ben ym Mawrth 2012.
61. Petaem ond yn gweithio gyda'r asiantaethau a'r adrannau sy'n gyfrifol am Lloegr, ni fyddem yn gallu cyflawni ein cyfrifoldeb tuag at blant a phobl ifanc o Gymru. Yng Nghymru, mae'r BCI yn gweithio'n agos gydag Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ogystal, rydym yn dal cyswllt â'r arolygiaethau datganoledig:
- Estyn
  - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac
  - Arolygiaeth Iechyd Cymru.
62. Gydol yr adran hon, lle rydym yn cyfeirio at yr asiantaethau sy'n gweithredu yn Lloegr yn unig, bydd hyn yn cael ei nodi yn y testun. Bydd gwaith cyfatebol a chyfochrog yn cael ei wneud gyda'r cyrff datganoledig.

## **Diogelu**

63. Y man cychwyn ar gyfer ymgysylltu'n llwyddiannus â phobl ifanc yw gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Felly mae diogelu effeithiol yn hollbwysig i leihau aildroseddu.
64. Mae diogelu pobl ifanc yn yr ystad sefydliadau diogel yn fater heriol. Mae'n hollbwysig fod ein gwaith ni, a gwaith ein darparwyr, yn gydnaws â chanllawiau a deddfwriaeth gyfredol i sicrhau diogelwch rhai o'r bobl ifanc yn ein cymdeithas sydd wedi'u niweidio fwyaf.

65. Parhawn i ddisgwyl i bob sefydliad diogel lynu wrth eu dyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn effeithiol, a ddylai gynnwys:
- eu hamddiffyn rhag hunan-niweidio
  - eu hamddiffyn rhag cael niwed gan oedolion ac
  - eu hamddiffyn rhag cael eu niweidio gan gyfoedion.
66. Byddwn hefyd yn parhau i ddisgwyl i ddarparwyr gyflawni'u dyletswydd statudol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i'w galluogi i ddiogelu plant a phobl ifanc yn eu gofal yn effeithiol. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys trefniadau (ond heb eu cyfyngu iddynt) i ymateb yn effeithiol i:
- honiadau ynghylch amddiffyn plentyn
  - digwyddiadau hunan-niweidio a hunanladdiad
  - digwyddiadau trais a bwlio
  - fetio a gwahardd a
  - datblygu'r gweithlu a hyfforddiant staff.
67. Rydym yn cydnabod bod diogelu plant a phobl ifanc yn effeithiol mewn sefydliadau diogel yn dibynnu ar wasanaethau plant awdurdodau lleol yn cyflawni'u dyletswyddau statudol. Felly mae'n bwysig fod trefniadau cadarn ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth ar gael rhwng sefydliadau diogel ac awdurdodau lleol yn ogystal ag asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn sefydliadau diogel.
68. Mae'r BCI wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf drwy wneud newidiadau i sefydliadau diogel drwy:
- fuddsoddi cyfalaf mewn meysydd diogelu penodol megis cyfleusterau noson gyntaf, cawodydd ciwbicl a chelloedd mwy diogel
  - gweithredu argymhellion o ddau adolygiad diogelu cynhwysfawr ar draws yr ystad sefydliadau diogel
  - darparu arian ar gyfer rheolwyr diogelu, gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer pobl ifanc a
  - cynnal nifer o adolygiadau manwl o feysydd ymarfer megis archwiliadau llawn o'r corff, cwynion a gwahanu.
69. Yn ystod cyfnod y strategaeth hon, bwriadwn:
- barhau i weithredu argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Ataliaeth (IRR), gan gynnwys gweithio'n effeithiol gyda NOMS a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu a gwella systemau rheoli ymddygiad, gan gynnwys

ataliaeth, mewn sefydliadau troseddwy'r ifanc a chanolfannau hyfforddi diogel

- parhau i sicrhau bod gan bob sefydliad strategaethau effeithiol i leihau ataliaeth i'r eithaf ar waith a'u bod yn cael eu monitro yn eu herbyn
- parhau i sicrhau bod cyfleusterau cadw dan glo yn ddigonol ar gyfer plant a phobl ifanc
- sicrhau bod darparwyr yn gweithredu argymhellion a geir yn ein hadolygiadau o archwiliadau llawn o'r corff, gwahanu, cwynion a llinellau cymorth
- datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd ar gyfer STI cyhoeddus. Bydd y fframwaith yn casglu gwybodaeth am berfformiad o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys gwybodaeth am ddiogelwch a lles pobl ifanc. Os bydd y data'n amlygu pryderon, neu os ystyrir bod meysydd ymarfer yn peri risg uchel, bydd y BCI yn cynnal adolygiadau sicrwydd, a fydd yn edrych yn fanwl ar arferion ar y safle. Bydd y BCI yn gweithio i ddatblygu methodoleg ar gyfer yr adolygiadau hyn gan gynnwys y gwahanol brofion a fydd yn cael eu defnyddio a chyfansoddiad y tîm a fydd yn cynnal yr adolygiadau. Bydd y dull hwn yn galluogi'r BCI i gadw golwg ar yr holl wybodaeth berthnasol am ddiogelwch pobl ifanc dan glo gan edrych hefyd yn fanwl ar feysydd allweddol os bydd angen a
- parhau i fonitro canolfannau hyfforddi diogel yn drwyadl.

### **Datblygu'r gweithlu**

70. Mae datblygu'r gweithlu'n rhan bwysig o'n strategaeth. Ond, dyma hefyd un o'n rhaglenni mwyaf heriol. Gweledigaeth y BCI ar gyfer y gweithlu mewn sefydliadau diogel yw bod yr holl staff sy'n gweithio mewn sefydliadau diogel yn cael eu recriwtio'n benodol i weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac yn ymrwymedig i hynny, eu bod yn cael eu hyfforddi'n briodol i ddelio â'r heriau y mae'r grŵp hwn yn eu cyflwyno ac i gymhell newid, ac yn cael eu cefnogi gan reolwyr drwy sesiynau goruchwylio ac adrodd yn ôl trwyadl.

71. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r BCI wedi rhoi strategaeth datblygu'r gweithlu ar waith ac wedi sefydlu Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, mewn cydweithrediad agos â chynghorau sgiliau sector perthnasol. Rydym yn ymrwymedig i wella mynediad i hyfforddiant achrededig, perthnasol a throsglwyddadwy ar gyfer pob ymarferydd cyfiawnder ieuenctid sy'n gweithio mewn sefydliadau diogel. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i hyfforddiant yn ogystal â datblygiad gyrfa fod mor ddeniadol â phosibl er mwyn datblygu gweithlu medrus – ar lefel ymarferydd a rheolwr, gan gynnwys, yn bwysig iawn, Llywodraethwyr y Gwasanaeth Carchardai.
72. Y mae heriau sefydliadol a diwylliannol penodol yn gysylltiedig â chyflawni ein huchelgeisiau yn y STI cyhoeddus. Nid yw hyn yn feirniadaeth ar y Swyddogion Carchar, sy'n gwneud gwaith clodwiw mewn amgylchiadau anodd, ac â llai o adnoddau nag yn sectorau eraill yr ystad sefydliadau diogel. Ond, yn aml iawn, mae cyfleoedd datblygu gyrfa i Swyddogion Carchar y tu allan i'r ystad pobl ifanc, sy'n ei gwneud yn anodd iawn cadw staff o safon uchel.
73. Byddwn yn parhau i weithio gyda NOMS drwy Fwrdd Datblygu'r Gweithlu ar y cyd.
74. Hefyd, rydym eisoes yn datblygu nifer o gynlluniau i ddatblygu gweithlu'r ystad adeiladau diogel drwy:
- hyfforddiant ymwybyddiaeth am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu gyda'r Ymddiriedolaeth Gyfathrebu
  - mynediad ar gyfer yr ystad sefydliadau diogel i'r YJILS (Gofod Dysgu Rhyngweithiol Cyfiawnder Ieuenctid) ar-lein
  - datblygu hyfforddiant i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r broses cynllunio dedfrydau a rheoli achosion newydd a
  - datblygu hyfforddiant pwrpasol i staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n peri risg uchel ac sydd dan ddedfrydau amhenodol.

### **Y broses lleoli**

75. Mae cael pobl ifanc i ymgysylltu'n effeithiol yn dechrau wrth gymryd y penderfyniad lleoli cywir. Ar sail yr wybodaeth a ddarperir gan y timau troseddwyr ifanc (TTI), bydd Gwasanaeth Lleoli'r BCI yn ystyried y ffactorau canlynol cyn lleoli person ifanc:
- risgiau unigol, yr ystod lawn o anghenion ac amgylchiadau penodol y person ifanc yn dilyn asesiad ohonynt gan y TTI cyfrifol
  - hanes blaenorol yn yr ystad sefydliadau diogel



- argymhelliad lleoli'r TTI
  - y llefydd sydd ar gael a'u lleoliad
  - gwarant y llys a
  - trafodaethau gyda sefydliadau diogel posibl er mwyn i broffil cyfredol y bobl ifanc yn y sefydliad hwnnw gael ei ystyried.
76. Gwneir penderfyniadau lleoli ar sail unigol ac maent bob amser yn adlewyrchu anghenion y person ifanc sy'n cael ei leoli.
77. Mae'r opsiynau lleoli presennol wedi'u cyfyngu i'r ystad sefydliadau diogel a gomisiynir. Gan adlewyrchu anghenion cymhleth nifer bach o bobl ifanc yn yr ystad bresennol, bydd y BCI yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:
- lleoli person ifanc sydd â phroblemau iechyd, lles neu ymddygiad eithriadol mewn cyfleuster mwy priodol y tu allan i'r ystad sefydliadau diogel a
  - datblygu nifer bychan o is-safleoedd llai sy'n cynorthwyo'r broses adsefydlu yn y gymuned, rhai ohonynt o bosibl yn darparu llety byw agored neu led-annibynnol i gynorthwyo pobl ifanc â'r broses adsefydlu.

### **Asesu a chynllunio dedfryd**

78. Mae angen i'r asesiadau o bobl ifanc fod yn gynhwysfawr. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau y cynllunnir yn effeithiol ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u remandio neu eu dedfrydu ac yn gymorth wrth ddyrannu adnoddau er mwyn i bobl ifanc gael yr ymyriadau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar newid eu hymddygiad. Mae asesiadau gwael yn golygu na fydd adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau.
79. Cafodd y fframwaith cynllunio ymyriadau ac asesu a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y system cyfiawnder ieuencid a sefydliadu diogel ei ddatblygu dros y ddegawd diwethaf ac mae wedi cael ei addasu, lle roedd angen, i ystyried datblygiadau gwleidyddol a datblygiadau mewn ymarfer. Ond, yn ddiweddar mae nifer o sbardunau ar gyfer newid wedi dod i'r amlwg, sy'n darparu mandad i adolygu'r fframwaith presennol er mwyn sefydlu'r achos dros ei ddiweddarau.
80. Mae'r sbardunau hyn yn cynnwys:
- mae asesu risg a ffactorau amddiffynnol, sef y sylfaen ar gyfer cynllunio ac asesu ar hyn o bryd, wedi cael eu beirniadu fwyfwy mewn llenyddiaeth academiaidd. Mae hyn yn cyd-daro â datblygiad modelau ymarfer a theori ar yr un pryd sy'n seiliedig ar ffactorau sy'n gwella'r tebygolrwydd y bydd person ifanc yn ymwrthod â throsteddu

- mae angen bod yn fwy cydnaws â fframweithiau asesu cyfredol, yn enwedig y Fframwaith Asesu Cyffredin, a
  - mae tystiolaeth sydd wedi dod o gwestau yn dilyn marwolaethau pobl ifanc a oedd yn cael eu cadw dan glo ac adolygiadau TTI o ymarfer yng nghyswllt digwyddiadau difrifol yn y gymuned wedi dwyn sylw at gyfyngiadau'r fframwaith presennol.
81. Mae cynnig ar gyfer fframwaith asesu a chynllunio ymyriadau newydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Mae'r cynigion hyn yn ategu'r gwaith i wella sgiliau rheoli achosion yn yr ystad sefydliadau diogel a'u bwriad yw gwella ansawdd gwybodaeth yn sylweddol a'r broses a ddefnyddir i drosglwyddo gwybodaeth o'r gymuned i'r sefydliad diogel ac yn ôl wedyn i'r gymuned.
82. Mae'r BCI eisoes wedi disgrifio rolau a chyfrifoldebau yng nghyswllt y broses cynllunio dedfrydau<sup>19</sup>. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o arweiniad a fydd yn darparu gwybodaeth glir am rannu cyfrifoldebau ar draws timau aml-asiantaeth. Bydd hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr i reolwyr ac ymarferwyr o sut i gynllunio a chydlynu gwasanaethau'n seiliedig ar yr hyn a wyddom am ymarfer effeithiol, darparu eglurder o ran gofynion cynllunio dedfrydu a rheoli achosion sefydliadau diogel, a sicrhau cysondeb â'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gan Dimau Troseddwy'r Ifanc i helpu i sicrhau dull mwy cysylltiedig gydol y broses ar gyfer cynllunio dedfrydau a remand – gan gynnwys ar y gyfer y bobl ifanc hynny sy'n cael eu remandio i'w cadw dan glo.

### **Lles corfforol a meddyliol**

83. Dylai'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc mewn sefydliadau diogel gyfateb i'r rheini sydd ar gael yn y gymuned. Mae'r BCI yn cydnabod bod anghenion iechyd corfforol a meddyliol rhai pobl ifanc mewn sefydliadau diogel yn gymhleth ac yn sylweddol ac y dylai pobl ifanc allu cael gafael ar ddarpariaeth briodol i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.
84. Mae darparu triniaeth a chefnogaeth briodol, lle mae angen hynny, yn hollbwysig i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol. Os nad yw pobl ifanc sydd â namau penodol yn cael eu dynodi ac os na chynigir cymorth perthnasol iddynt, ni fyddant yn gallu cyfrannu at y rhaglenni a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i roi'r gorau i droseddu. Mae hyn yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd a rhieni/gofalwyr lle bo hynny'n briodol.

---

<sup>19</sup> Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2010) *Case Management Guidance – Planning and delivering interventions in custody and resettlement into the community*. Llundain: BCI.

85. Gall bodloni anghenion iechyd corfforol a meddyliol pobl ifanc mewn sefydliadau diogel leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu'n syth a gall hefyd leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn troseddu pan fyddant yn oedolion. Mae pobl ifanc sydd dan glo yn dal i ddatblygu a cheir cyfle yn ystod y blynyddoedd glasoed hanfodol hyn i hybu iechyd a gwytnach a helpu i atal salwch meddwl rhag datblygu yn ddiweddarach.
86. Mewn ymateb i anghenion cymhleth iawn rhai dynion ifanc mewn STI, comisiynodd y BCI uned cymorth gwell yn STI Wetherby. Awgryma tystiolaeth sy'n dod i'r wyneb y gall hyn fod yn ffordd o fynd i'r afael yn effeithiol ag anghenion cymorth mwy cymhleth.

### Blwch 3: Uned Keppel, STI Wetherby

Uned 48 gwely yw Uned Keppel (pedair uned o ddeuddeg) sy'n lletya dynion ifanc 15 – 17 oed sydd ag anghenion cymhleth iawn nad ydynt yn gallu ymdopi yn y system STI prif ffrwd.

Mae gan lawer o'r bobl ifanc yn yr uned broblemau iechyd meddwl ac maent wedi cael eu heithrio'n gymdeithasol ers oeddynt yn ifanc. Mae gweithlu ymroddedig yr uned yn derbyn rhaglen hyfforddi wyth wythnos o hyd sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, modelu pro-gymdeithasol, rheoli ymddygiad, hyfforddiant amddiffyn plant, hyfforddiant troseddwyd rhyw a hyfforddiant ar hunanladdiad, hunan-niweidio a gwytnwch. Mae'r bobl ifanc yn gallu cael gafael ar ystod gwell o raglenni a gwasanaethau megis cyrsiau addysg a datblygu, gwaith ar gamddefnyddio cyffuriau, cwnsela yn dilyn profedigaeth, triniaeth ar gyfer troseddwyd rhyw a rheoli tymer. Mae'r cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i bennu blaenoriaethau ar gyfer ymyriadau.

Ar gyfer pobl ifanc ar ddedfrydau byr, mae'r broses hefyd yn cynnwys cysylltu ag asiantaethau perthnasol o ran beth ddylai ddigwydd yn y gymuned unwaith y caiff y person ifanc ei ryddhau. Mae'r holl bobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyfrannu at weithgareddau'r uned syn cynnwys rhannu amseroedd bwyd, sesiynau yn y gampfa ac ymweliadau â'r llyfrgell. Ymysg y gweithgareddau eraill y mae prosiectau cyfryngau a cherddoriaeth a'r cyfle i ddysgu sut i ofalu am anifeiliaid.

#### Y farn feirniadol

"Mae Uned Keppel yn un o'r sefydliadau cadwraeth mwyaf nodedig i agor yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mewn cyfnod byr iawn, mae grŵp ymroddedig o staff wedi sefydlu uned ddiogel, gefnogol a phwrpasol lle eir i'r afael yn effeithiol â'r risgiau y mae rhai pobl ifanc cymhleth sydd wedi cael eu niweidio'n fawr yn eu hachosi, a'u hanghenion."

Y Fonesig Anne Owers, Prif Arolygydd Carchardai EM (2009)

87. Oherwydd llwyddiant Uned Keppel, rydym yn bwriadu ehangu'r ddarpariaeth i unedau llai a gwell a all ateb gofynion cymhleth iawn rhai o'r bobl ifanc yn well. Gallai'r unedau hyn gefnogi nid yn unig eu hanghenion iechyd meddwl ond eu hanghenion dysgu sylweddol, a rhoi sylw i anawsterau lleferydd ac iaith.
88. Yn ogystal, bwriadwn wella'r systemau cyfredol. Rydym yn benodol yn croesawu'r cynigion yn y strategaeth iechyd meddwl traws-lywodraethol *No Health without Mental Health*<sup>20</sup> a phapur Gwyrdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddargyfeirio pobl ifanc o'r system cyfiawnder troseddol lle bo hynny'n briodol. Ond, mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sydd wedi troseddu ac sydd ag anghenion cymorth cymhleth ac anghenion iechyd meddwl. Byddwn felly'n parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd a'r GIG i sicrhau bod gwasanaethau iechyd yn cael eu comisiynu'n strategol ac yn seiliedig ar anghenion asesedig<sup>21</sup>.

### **Diwrnod llawn a phwrpasol**

89. Fel y nodir yn glir yn y Papur Gwyrdd, *Breaking the Cycle*<sup>22</sup>, ni ddylid caniatáu i droseddwr sy'n cael eu cadw dan glo dreulio'u hamser dan glo yn ddiwbwrpas. Dylid defnyddio trefn a strwythur cyfnod dan glo i ddarparu diwrnod pwrpasol ac ystyrlon i'r bobl ifanc a meithrin ethos o ddatblygu cadarnhaol ynddynt.
90. Nid yw'n dderbyniol mai dim ond hanner y bobl ifanc a arolygwyd mewn STI a ddywedodd eu bod, yn eu barn nhw, wedi gwneud rhywbeth yn y carchar a fyddai'n lleihau eu tebygolrwydd o droseddu yn y dyfodol; er bod y cyfan bron ohonynt wedi dweud eu bod eisiau rhoi'r gorau i droseddu ar ôl cael eu rhyddhau<sup>23</sup>. Rhaid i gyfnod dan glo felly roi cyfle i bobl ifanc gydnabod a chymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd, a rhoi cyfle iddynt ddysgu sut i newid y patrymau ymddygiad sydd mewn perygl o ddod yn ffordd o fyw iddynt pan fyddant yn oedolion.

---

<sup>20</sup> Llywodraeth EM (2011) *No health without mental health. A cross-government mental health outcomes strategy for people of all ages*. Llundain: Llywodraeth EM.

<sup>21</sup> Mae gan yr Adran Iechyd a'r GIG gyfrifoldebau eisoes dros gomisiynu gwasanaethau iechyd mewn STI a bydd ganddynt gyfrifoldeb dros sefydliadau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant yn y dyfodol.

<sup>22</sup> Llywodraeth EM (2010) *Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders*, Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

<sup>23</sup> Arolygiaeth Carchardai EM (2010) *Children and young people in custody, 2009-10. An analysis of the experiences of 15-18 year olds in custody*. Llundain: Llywodraeth EM.

91. Mae'n bwysig fod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar raglenni a ymyriadau effeithiol sydd wedi'u cynllunio'n dda y gwyddys eu bod yn gweithio. Mae'r ddarpariaeth gyfredol yn gyfuniad o raglenni a ariennir yn ganolog gan y BCI, megis JETS (Gwell Sgiliau Meddwl ar gyfer Pobl Ifanc) a rhaglenni a ddatblygir yn lleol gan sefydliadau unigol. O'r herwydd, mae ystod a chynnwys y rhaglenni sydd ar gael mewn sefydliadau diogel yn amrywio.
92. Yn y gorffennol, mae'r BCI wedi gwneud gwaith sylweddol i ganfod elfennau allweddol ymarfer effeithiol ac i ddsbarthu'r rhain mewn fformatau sy'n ddefnyddiol i ymarferwyr. Rydym yn benderfynol o adeiladu ar y gwaith hwn ac, ar hyn o bryd, rydym yn cynnal adolygiad llawn o'r broses hon gyda'r bwriad o ymgorffori system well gyda newidiadau ehangach yn unol â'n cynllun sefydliadol.
93. Ond, mae angen gwneud rhagor o gynnydd i sicrhau y gwyddys bod yr ymyriadau sy'n cael eu darparu mewn sefydliadau diogel yn rhai effeithiol. Ar hyn o bryd:
- mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ymyriadau effeithiol mewn sefydliadau diogel yn brin
  - mae mynediad at raglenni sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer pobl ifanc yn gyfyngedig a
  - nid oes system glir ar gyfer rheoli ansawdd ac achredu ymyriadau ar gyfer pobl ifanc yn benodol, yn arbennig yn y STI cyhoeddus.
94. Fel comisiynydd, bydd y BCI yn gweithio i ganfod yr ymyriadau mwyaf effeithiol ar gyfer pobl ifanc. Yn benodol, byddwn yn:
- parhau i annog darparwyr i rannu gwybodaeth am y cymorth a'r arferion cyfredol
  - parhau i brofi a gwerthuso rhaglenni newydd a dulliau newydd o weithredu mewn sefydliadau diogel er mwyn rhoi arweiniad gwell ar y rhaglenni a'r ymyriadau mwyaf cost-effeithiol y mae ymarfer newydd yn dangos wrthym sy'n fwy tebygol o helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol
  - gweithio gyda NOMS i fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddatblygu ymyriadau effeithiol sy'n cael eu darparu mewn STI cyhoeddus.
95. Lle bo'n briodol, gallai hyn gynnwys gwersi a ddysgir oddi wrth sectorau eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc ag anawsterau emosiynol ac ymddygiad.

96. Ar gyfer pob person ifanc dan glo, dylai addysg fod yn greiddiol i'r gyfundrefn. Dylid teilwra'r ddarpariaeth i adlewyrchu datblygiad addysgol y bobl ifanc hyd yma. Mae gan gyfran sylweddol o'r bobl ifanc sydd dan glo anghenion addysgol arbennig ac anawsterau ymddygiad ac emosiynol sy'n golygu eu bod yn ei chael yn anodd cyfrannu at addysg. Mae angen rhoi sylw penodol i gefnogi pobl ifanc sydd ag anawsterau lleferydd ac iaith. Mae angen cael dull gwahanol o weithredu ar gyfer y grŵp hwn ynghyd â chwricwlwm priodol.
97. Ar hyn o bryd yr YPLA sy'n gyfrifol am gomisyneu ac ariannu addysg yn y STI cyhoeddus. Pan gaiff yr YPLA ei ddiddymu ym mis Mawrth 2012, byddwn yn gweithio gyda'r Adran Addysg i ddatblygu dull gweithredu hir dymor ar gyfer comisyneu addysg a hyfforddiant i bobl ifanc dan glo, gan sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu galluoedd ac anghenion asesedig y bobl ifanc. Byddwn yn ceisio canfod ffyrdd gwahanol o ddarparu addysg i'r bobl ifanc hynny dan glo sydd wedi'i chael yn fwyaf anodd cyfrannu at addysg brif ffrwd yn y gymuned a hwyluso pontio gwell o'r sefydliad diogel i'r gymuned.

### **Ailsefydlu**

98. Mae darparu gwasanaethau ailsefydlu effeithiol yn hollbwysig i leihau aildroseddu a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau. Er mwyn cael mwy o bobl ifanc i fyw eu bywydau heb droseddu pan fyddant yn cael eu rhyddhau, mae angen cefnogaeth arnynt pan maent dan glo ac wedi hynny i fynd i feysydd addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, dod o hyd i lety addas a chael gafael ar wasanaethau prif ffrwd eraill.
99. Rhaid dechrau ar y gwaith paratoi effeithiol ar gyfer ailsefydlu pan gaiff y person ifanc ei roi dan glo i ddechrau. Mae'n holl bwysig y dylai hyn, lle bo'n briodol, gynnwys cysylltiad effeithiol â theulu'r person ifanc. Dylai hyn fod yn rhan sylfaenol o waith sefydliadau diogel.
100. Rhaid cael mewnbwn gan bartneriaid gwahanol i ailsefydlu pobl ifanc yn llwyddiannus. Y mae nifer o gynlluniau ar gael eisoes a oruchwylir gan y BCI a fydd yn gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u rheoli wrth bontio o'r sefydliad diogel i'r gymuned.
- **Asesu a rheoli achosion**  
Mae asesiadau cynhwysfawr a rheolaidd o angen a rheoli achosion yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod anghenion ailsefydlu'n cael eu canfod yn gynnar, bod gwasanaethau plant a chymunedol prif ffrwd yn cael eu pennu, a bod trefniadau ailsefydlu cadarn yn eu lle cyn rhyddhau.

Mae'r cynigion presennol yn adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei gynllunio i wella sgiliau rheoli achosion yn yr ystad sefydliadau diogel a'u bwriad yw gwella ansawdd gwybodaeth yn sylweddol a'r broses a ddefnyddir i drosglwyddo gwybodaeth o'r gymuned i'r sefydliad diogel ac yn ôl wedyn i'r gymuned. Bydd hyn yn gwella parhad yr asesu a'r ymyrryd yn arw yng nghyswllt pobl ifanc unigol wrth iddynt groesi ffiniau critigol. Nid oes cytundeb terfynol wedi'i gyrraedd eto ar y cynigion hyn.

- ***Mynediad y TTI i'r cynllun peilot eAsset***

Mae cynllun peilot wedi'i sefydlu a fydd yn rhoi'r gallu i ymarferwyr mewn 13 TTI weld, yn electronig, yr wybodaeth ddiweddaraf am bobl ifanc yn yr ystad sefydliadau diogel y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd hwn yn cau'r ddolen wybodaeth sy'n dechrau wrth i'r TTI ddarparu gwybodaeth am bobl ifanc i Wasanaeth Lleoli'r BCI ac wedyn i'r sefydliad diogel perthnasol. Caiff y peilot hwn ei werthuso i weld pa mor ymarferol a phriodol fyddai cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol i bob TTI.

- ***Partneriaethau ailsefydlu awdurdodau lleol***

Mae consortia ailsefydlu yn y Gogledd Orllewin, y De Orllewin, Wessex a Gorllewin Swydd Efrog, ynghyd â Rhaglen Lleihau Aildroseddu ymysg leuenctid Llundain i gyd wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus. Gyda'r dulliau hyn, gwelwyd grwpiau o awdurdodau lleol yn gweithio gyda'u sefydliad(au) diogel agosaf i gynllunio a sicrhau canlyniadau ailsefydlu effeithiol o'r adeg y daw person ifanc yn rhan o'r ystad sefydliadau diogel tan ddiwedd y lleoliad a thu hwnt yn ôl yr angen. Darperir cymorth ychwanegol i bobl ifanc er mwyn iddynt gael mynediad cynaliadwy at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a llety. Bydd rhywfaint o gyllid yn cael ei ddarparu mewn rhai ardaloedd ar gyfer 2011/12. Wedyn bydd ardaloedd lleol yn penderfynu a ddylent gymryd y cyfrifoldeb dros y consortia gan ddefnyddio cyllid o'u grantiau cyfiawnder ieuenctid a manau eraill.

Mae'r partneriaethau hyn yn Llundain, y De Orllewin, Wessex a'r Gogledd Orllewin i gyd yn cael eu gwerthuso a disgwylir y canlyniadau yn 2012.

- ***Cymorth Integredig i Ailsefydlu (IRS)***

Tan Mawrth 2011, darparwyd arian wedi'i glustnodi i 107 o dimau troseddwr ifanc yng Nghymru a Lloegr (y rheini â chyfraddau cadw dan glo uwch) er mwyn darparu gwasanaethau cymorth i bob person ifanc sy'n gadael sefydliad diogel. Yn y flwyddyn ariannol hon, nid yw'r arian wedi'i glustnodi ond wedi'i gynnwys ym mhrif grant TTI y BCI. Ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr arian sydd ar gael yn cael ei ailddosbarthu i bob TTI fel rhan o'r fformiwla ariannu ddiwygiedig sy'n cael ei datblygu gan y BCI. Gobeithiwn y bydd y TTI

yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau IRS i gyflawni blaenoriaethau lleol.

- **Cymru**

Yng Nghymru, mae chwe TTI wedi treialu dull 'panel' aml-asiantaeth o weithredu, dull tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer paneli cefnogi a chynnwys ieuenctid. Y nod yw sicrhau bod anghenion pobl ifanc sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu diwallu drwy waith cynllunio ailsefydlu cadarn, sy'n cychwyn pan ddaw'r person ifanc i'r ystad sefydliadau diogel i ddechrau a dal yr holl bartneriaid lleol i gyfrif drwy gyflenwi gwasanaethau'n integredig.

- **Darpariaeth ailsefydlu bwrpasol**

Mae cynllun peilot tŷ hanner ffordd Brent Knoll ym Mryste, a redir gan fudiad yn y sector gwirfoddol, Making the Change, yn darparu llety dros dro a phe cyn ymyriadau i bobl ifanc sy'n gadael STI Ashfield â phroblemau heb eu datrys ganddynt o ran llety.

- **Gwella cyfathrebu yng nghyswllt ailsefydlu**

Byddwn yn hyrwyddo proses i lywodraethwyr, cyfarwyddwyr a rheolwyr sefydliadau roi gwybod yn ffurfiol i'r awdurdod lleol perthnasol am y risgiau sy'n gysylltiedig â chynlluniau ailsefydlu unigol, gan sicrhau drwy hynny bod cynlluniau priodol ar gael mewn da bryd cyn i bobl ifanc gael eu rhyddhau. Bydd peirianwaith tebyg ar gael i awdurdodau lleol gyfeirio unrhyw bryderon at sefydliadau am y cynlluniau ar gyfer y pobl ifanc sydd ganddynt yn y ddalfa, boed ar remand neu dan ddedfryd.

- **Rhyddhau ar Drwydded Dros-dro**

Gwyddom fod defnyddio Rhyddhau ar Drwydded Dros-dro (ROTL) yn gallu bod yn fanteisiol i rai pobl ifanc. Yn y tymor hwy, a thros gyfnod all ymestyn y tu hwnt i'r strategaeth hon, byddwn felly yn ystyried datblygu nifer bach o is-safleoedd llai a fydd yn helpu'r bobl ifanc i ailsefydlu yn y gymuned, rhai ohonynt o bosibl yn llety byw agored neu led-annibynnol. Bydd hyn yn digwydd fel rhan o'n pwerau comisiynu presennol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i geisio rhagor o gyfleoedd i gomisiynu gwasanaethau sy'n rhoi cymorth parhaus i bobl ifanc yn ystod eu caethiwed ac yn y gymuned sy'n debyg i'r gwasanaeth broceriaid ailsefydlu yn Uned Heron yn STI Feltham.

#### Blwch 4: Uned Heron, STI Feltham

Uned ailsefydlu deg gwely ar hugain arbennig yw Uned Heron yn STI Feltham. Fe'i comisiynwyd fel rhan o strategaeth *Time for Action* Maer Llundain ac mae'n un elfen o'r *London Youth Reducing Reoffending Programme (Daedalus)*. Cydlynir y rhaglen gan Bartneriaeth Cyfiawnder Troseddol Llundain lle ceir cydweithio rhwng y BCI, Awdurdod Datblygu



Llundain, NOMS, Awdurdod Llundain Fwyaf, Awdurdodau Lleol Llundain ac Elusen Ieuencid Rathbone. Dechreuodd y peilot dwy flynedd a hanner ym mis Medi 2009 ac mae'n cael ei werthuso'n llawn.

Nod yr uned yw torri'r cylch aildroseddu ymysg pobl ifanc drwy ddarparu rhaglen ailsefydlu well i bobl ifanc o fwrdeistrefi Llundain. Mae'r bobl ifanc hyn yn derbyn cymorth parhaus a gwell gan dîm o froceriaid ailsefydlu, sy'n gweithio gyda phobl ifanc tra'u bod dan glo a hefyd pan gânt eu rhyddhau i'r gymuned, ac sy'n hwyluso mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gynaliadwy a gwasanaethau eraill yn ôl yr angen er mwyn lleihau'r perygl y byddant yn aildroseddu pan gânt eu rhyddhau i'r gymuned.

#### Grŵp targed

Y grŵp targed ar gyfer Uned Heron yw dynion ifanc:

- 15 i 17 oed
- sydd wedi cael eu dedfrydu i'w cadw'n gaeth ac
- sy'n dod o un o fwrdeistrefi Llundain.

Yn ogystal â'r meini prawf sylfaenol uchod, caiff dynion ifanc eu hasesu i ganfod lefelau eu cymhelliant a'u parodrwydd i ymgysylltu, gyda chymhlethdod eu hanghenion ailsefydlu'n cael eu hystyried hefyd.

101. Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgir o'r holl gynlluniau a ddisgrifir uchod i wella cysondeb yr ymarfer ar draws sefydliadau a chefnogi awdurdodau lleol i sylweddoli beth yw manteision gwasanaeth ailsefydlu mwy effeithiol.

## **Cwestiynau ymgynghori**

102. Rydym yn annog unrhyw un sydd â diddordeb mewn cyfiawnder ieuenctid – a mater caethiwed ieuenctid yn benodol – i ymateb. Rydym hefyd yn annog rhanddeiliaid i rannu'u barn mor agored ag y bo modd ar unrhyw agwedd sydd wedi cael sylw. Rydym felly wedi dewis peidio â chynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen.

103. Ond, rydym yn awyddus iawn i dderbyn ymatebion (gweler tudalen 3 am fanylion sut i ymateb) ar nifer o feysydd allweddol ac felly wedi darparu nifer bach o gwestiynau isod.

### ***Egwyddorion a blaenoriaethau***

- Ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion a nodir yn y ddogfen hon?
- A oes unrhyw feysydd pwysig nad ydynt yn cael sylw?

### ***Datblygu unedau gwell***

- Ydych chi'n cytuno â'r nod o ddatblygu unedau gwell (mewn sefydliadau mwy) i fynd i'r afael ag anghenion nifer bach o bobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth iawn?
- Beth arall y gellir ei wneud i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth?

### ***Ymateb i ostyngiad yn y galw***

- Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer addasu i'r gostyngiad yn y galw?
- Pa rôl ddylai profi'r farchnad ei chael yn y broses hon?

### ***Ystad sefydliadau diogel ar wahân***

- Beth arall y gellid ei wneud i gyfrannu at sefydlu ystad sefydliadau diogel cwbl ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc?

### ***Diwrnod llawn a phwrpasol***

- Beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod ymyriadau effeithiol yn cael eu datblygu mewn sefydliadau caeth?
- Pa rôl ddylai'r BCI ei chwarae?

### ***Ailsefydlu effeithiol***

- Ym mha ffyrdd y gallai'r BCI gefnogi darparwyr yn fwyaf effeithiol er mwyn i'r gwasanaethau yn y sefydliadau caeth a gwasanaethau yn y gymuned fod yn fwy cydgysylltiedig ac yn cydategu'i gilydd?

104. Mae'r rhan fwyaf o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael eu datblygu i'w rhoi ar waith yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant cyfredol sef 2011-2015. Mae'r cynigion hefyd yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd llety diogel yn parhau i gael ei gomisiynu o'r tri sector presennol.
105. Mae adolygu'r strategaeth yn gyfle i drafod dyheadau ehangach y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad o wariant. Byddem felly'n croesawu barn gan ein rhanddeiliaid am gyfansoddiad yr ystad sefydliadau diogel yn y tymor hwy a'r weledigaeth ar gyfer yr ystad, gan gynnwys awgrymiadau am:
- fathau gwahanol o ddarpariaeth
  - trefniadau comisiynu neu gydgomisiynu gwahanol
  - rhagor o ddatblygiadau i gyfundrefnau
  - peirianweithiau cyflenwi
  - strategaethau cystadleuaeth
  - rôl awdurdodau lleol
  - ffurfweddiad yr ystad
  - datblygu a chyflenwi rhaglenni ar ymddygiad troseddol ac eraill
  - gwella cyfleoedd ailsefydlu

## Y broses ymgynghori

Wrth ymateb, darparwch yr wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda.

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl eich swydd</b> neu ym mha swyddogaeth yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol)	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

---

---

---

## Asesu effaith

Mae asesiad effaith wedi'i gyhoeddi mewn dogfen ar wahân ac ar gael ochr yn ochr â'r ddogfen hon ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (<http://www.justice.gov.uk>)

## Y meini prawf ymgynghori

Mae'r saith maen prawf ymgynghori fel a ganlyn:

1. **Pryd i ymgynghori** – Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar adeg pan fo modd dylanwadu ar ganlyniad y polisi.
2. **Hyd ymarferion ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau fel arfer bara am o leiaf 12 wythnos, gan ystyried amserlenni hwy pan fydd hynny'n ymarferol ac yn synhwyrol.
3. **Eglurder ynglŷn â'r cwmpas a'r effaith** – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, y gallu i ddylanwadu, a chostau a buddiannau disgwylidig y cynigion.
4. **Hygyrchedd ymarferion ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y mae'n fwriad i'r ymarfer eu cyrraedd, ac wedi'u targedu'n glir atynt.
5. **Baich ymgynghori** – Mae'n hanfodol sicrhau bod yr ymgynghoriad yn achosi cyn lleied o faich â phosib er mwyn i ymgynghoriadau fod yn effeithiol, ac er mwyn sicrhau bod ymgynghoreion yn cyfrannu at y broses.
6. **Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori** – Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus, gan roi adborth clir i'r rhai sydd wedi cymryd rhan ar ôl yr ymgynghoriad.
7. **Gallu i ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ynglŷn â sut i gynnal ymarferiad ymgynghori'n effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu o'r profiad.

## **Manylion cyswllt y Cydgysylltydd Ymgynghori**

Os oes gennych gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori yn hytrach na'r testunau sy'n cael sylw yn y papur hwn, dylech gysylltu â

Cydgysylltydd Ymgynghori'r Weinyddiaeth Cyfiawnder  
Uned Gwell Rheoleiddio  
Gwasanaethau Dadansoddi  
7<sup>th</sup> Floor, Pillar 7:02  
102 Petty France  
Llundain  
SW1H 9AJ

## **Manylion cysylltu/Sut i ymateb**

Anfonwch eich ymateb erbyn 11 Hydref 2011 at:

**Debbie Woodgate**

**Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr  
1 Drummond Gate  
Llundain  
SW1V 2QZ**

**Ffôn: 020 3372 7891**

**E-bost: [secureestatestrategy@yjb.gov.uk](mailto:secureestatestrategy@yjb.gov.uk)**

### **Copiâu ychwanegol**

Mae copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn a hefyd ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk>.

Bydd fersiwn Cymraeg ar gael yn y man y gellir ei gael gan Debbie Woodgate.

### **Cyhoeddi ymateb**

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Tachwedd 2011. Bydd y papur ymatebion i'w weld ar-lein yn <http://www.justice.gov.uk>.

### **Grwpiau cynrychioliadol**

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## **Cyfrinachedd**

Efallai y bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os hoffech i'r wybodaeth a roddir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, o'r Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â dyletswyddau cyfrinachedd. Yng ngolwg hyn byddai'n ddefnyddiol pe baech yn dweud wrthym pam yr ydych yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn cadw eich esboniad mewn cof, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob achos. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynnddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti.

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.**

## Llyfryddiaeth

Better Regulation Executive (2008) *Code of Practice on Consultation*. Llundain: Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio.

Arolygiaeth Carchardai EM (2010) *Children and young people in custody, 2009-10. An analysis of the experiences of 15-18 year olds in custody*. Llundain: Llywodraeth EM.

Llywodraeth EM (2010) *Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders*. Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Llywodraeth EM (2011) *No health without mental health. A cross-government mental health outcomes strategy for people of all ages*. Llundain: Llywodraeth EM.

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2005) *Strategy for the Secure Estate for Children and Young People 2005/06 to 2007/08*. Llundain: BCI.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2010) *Case Management Guidance – Planning and delivering interventions in custody and resettlement into the community*. Llundain: BCI.

Llywodraeth EM (2010) *Youth Justice Statistics 2009/10, England and Wales*. Llundain: Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.





